




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Rhan 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil: y newidiadau arfaethedig Cyfiawnder agored

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 12/07/18  
Daw'r ymgynghoriad i ben ar 23/08/18





Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Rhan 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil: y newidiadau arfaethedig Cyfiawnder agored**

Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael yn  
<https://consult.justice.gov.uk/>

## Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

**I:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr llysoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Hyd:** O 12/07/18 tan 23/08/18

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** Civil Justice and Law Policy  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555  
E-bost: David.Hamilton5@justice.gsi.gov.uk

**Sut mae ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 23/08/18 at:  
Civil Justice and Law Policy  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555  
E-bost: Part39condoc@justice.gov.uk

**Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno'ch safbwyntiau:** Amh

**Papur ymateb:** Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad ar: <https://consult.justice.gov.uk/>

## Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	7
Y cynigion	8
Holiadur	16
Gwybodaeth amdanoch chi	14
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	15
Aseidiadau Effaith	7
Egwyddorion Ymgynghori	18

---



## Rhagair



Mae'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn cael ei chydabod yn rhyngwladol fel un o'r goreuon yn y byd; ein barnwriaeth annibynnol a chadarn, ein proffesiwn cyfreithiol o'r radd flaenaf ac ein system gyfiawnder yw sail cymdeithas fodern ac economi gref.

Mae ein rhaglen ddiwygio uchelgeisiol, sy'n cael eu rhoi ar waith gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, yn anelu at gyflwyno technolegau newydd a ffyrdd o weithio modern i'n system gyfiawnder. Bydd y newidiadau technolegol hyn, ynghyd â newidiadau ehangach yn y gymdeithas, yn golygu bod angen adolygu a diweddarau trefniadaeth y llysoedd.

Mae ein system gyfreithiol wedi'i selio ar yr egwyddor o gael cyfiawnder agored. Mae'r Llywodraeth wedi'i ymrwymo'n llawn i'r egwyddor hon. Mae hawl y cyhoedd i wybod, i weld y gyfraith fel y'i lluniwyd yn y Senedd a'i dyfarnu mewn llysoedd, yn hanfodol. Mewn araith ar Sicrhau Cyfiawnder Agored, dywedodd Syr Ernest Ryder, Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, "*Mae Cyfiawnder Agored yn ganolog i'n systemau cyfiawnder. Mae'n fwy na hynny. Trwy ein llysoedd a'n systemau cyfiawnder, mae'n hollbwysig i lywodraeth ddemocrataidd.*"<sup>1</sup>

Fodd bynnag, mae adegau pan nad oes gan y cyhoedd yr hawl ddi-ben-draw i wybod, neu pan na all y cyhoedd gael yr hawl honno. Mae'n rhaid gwarchod hawliau unigolion hefyd. Mae achosion llys diweddar yn awgrymu bod dryswch ynghylch y mater hwn, a bod angen addasu'r rheolau'r i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn rheoli prosesau mewn llysoedd sifil. Mae Rhan 39, darpariaeth cyffredinol sy'n ymwneud â gwrandawiaidau llys, yn nodi mewn perthynas â chyfiawnder agored mai'r rheol gyffredinol yw y dylai gwrandawiad fod yn gyhoeddus.

Bwriad y newidiadau arfaethedig i reol 39.2 yn yr ymgynghoriad hwn yw rhoi sylw i'r anghydbwysedd hwn a welir, ac i gynnig diwygiadau pellach:

- Ailddatgan beth yw diffiniad gwrandawiad, gyda'r bwriad o atgyfnerthu ac adeiladu ar waith cynt i wella mynediad ffisegol i wrandawiaidau;
- Rheol newydd i bwysleisio'r drefn eto na chaiff partion gyfathrebu â'r llys ar faterion o bwys heb roi copi i'r ochr arall hefyd;
- Cynigion i ategu'r trawsgrifiadau a ddarperir fel bod y barnwr, mewn achosion penodol, yn gallu rhoi cyfarwyddyd i bartion rannu eu nodiadau gyda'r ochr arall ac, mewn rhai achosion, y gall y nodiadau hyn a rennir fod yn lle'r trawsgrifiad; a
- Mecanwaith lle mae'r rhai hynny nad ydynt yn rhan o achos (ac mae manylion hwnnw yn breifat) yn gallu bod yn ymwybodol o'r achosion hyn a gwneud sylwadau arnynt.

<sup>1</sup> <https://www.judiciary.gov.uk/announcements/speech-by-sir-ernest-ryder-senior-president-of-tribunals-securing-open-justice/>

Bydd moderneiddio trefniadaeth ac ail-gysoni elfennau o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil gyda phenderfyniadau a wnaed mewn llysoedd yn ddiweddar yn sicrhau bod prosesau'r Llys yn parhau i fod yn gyfredol.

Lucy Frazer CF AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

## Crynodeb gweithredol

Daw'r newidiadau arfaethedig yn y papur ymgynghori hwn gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil, ond y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n cynnal yr ymgynghoriad.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awyddus i gael barn am newidiadau i Ran 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil '*Darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â gwrandawiadau*'. Mae'r Rhan hon yn cynnig cyfeiriad cyffredinol ar sut mae cynnal gwrandawiadau. Mae'r newidiadau arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u llunio i esbonio gofynion cyfiawnder agored o ran gwrandawiadau preifat a chyfyngiadau adrodd. Ar ben hynny, mae'r diwygiadau a gynigir yn ehangu diffiniad 'gwrandawiad' gan ystyried datblygiadau technolegol yn benodol, cyflwyno rheolau newydd ar gyfer partïon sy'n cyfathrebu â'r llys, ac ategu'r trawsgrifiadau a ddarperir.

Mae cyfiawnder agored yn un o egwyddorion sylfaenol cyfraith Cymru a Lloegr. Dylai fod pob gwrandawiad yn gyhoeddus. Mae'r Arglwydd Diplock yn *Attorney General vs Leveller Magazine Limited* [1979] 440 yn 449H-450D yn nodi'r egwyddor:

*Fel rheol, mae system Seisnig o weinyddu cyfiawnder yn mynnu bod hyn yn cael ei wneud yn gyhoeddus: Scott v Scott [1913] AC. 417. Os nad oes modd cuddio'r ffordd y mae llysoedd yn ymddwyn rhag y cyhoedd, mae hyn yn gwarchod rhag mympwyoldeb neu ormesdoleb y farnwriaeth, ac yn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y modd y gweinyddir cyfiawnder. Mae dwy elfen yn berthnasol wrth roi'r egwyddor o gyfiawnder agored ar waith: mewn achosion yn y llys ei hun, mae'n rhaid eu bod yn cael eu cynnal mewn llys agored lle caiff y wasg a'r cyhoedd fynediad ac, mewn achosion troseddol o unrhyw fath, bod pob tystiolaeth sy'n cael ei chyfleu i'r llys yn cael ei chyfleu'n gyhoeddus. O ran cyhoeddi adroddiadau teg a chywir i'r cyhoedd yn gyffredinol am achosion sydd wedi'u cynnal mewn llys, mae'r egwyddor yn mynnu na ddylai dim gael ei wneud i atal hyn.*

Bu i'r Arglwydd Diplock hefyd nodi'r tensiwn rhwng hawl y cyhoedd i wybod a'r angen i sicrhau cyfiawnder:

*Gan mai diben y rheol gyffredinol yw sicrhau cyfiawnder, efallai y bydd yn rhaid gwyro oddi wrth y rheol pan fydd natur neu amgylchiadau achos penodol yn golygu y byddai dilyn y rheol gyffredinol yn llwyr yn gwneud y gwaith o weinyddu cyfiawnder yn anymarferol neu'n rhwystredig neu'n amharu er gwaeth ar fuddiant arall y mae'r Senedd wedi creu rhanddirymiad statudol oddi wrth y rheol er mwyn gwarchod y buddiant. Ar wahân i eithriadau statudol, fodd bynnag, lle mae'r llys yn defnyddio ei rym priodol i reoli sut mae achosion yn cael eu cynnal cyn gwyro oddi wrth y rheol gyffredinol mewn unrhyw fodd, bydd y gwyro hwnnw'n cael ei gyfiawnhau i'r graddau, a dim mwy nag i'r graddau y mae'r llys yn credu'n rhesymol bod angen gwneud hynny er mwyn sicrhau cyfiawnder.<sup>2</sup>*

Mae'r angen i daro cydbwysedd rhwng hawl y cyhoedd i wybod ar un llaw, a'r angen am gyfrinachedd i sicrhau cyfiawnder, yn cael ei adlewyrchu yng ngeiriad rheol 39.2 Rheolau Trefniadaeth Sifil. Ond hyd yn oed wedyn, mae sawl un wedi beirniadu rheol 39.2. Yn benodol, mae rheol 39.2 yn nodi:

<sup>2</sup> Per Flaux, J yn *Griseley Properties vs Barclays et al* [2013] EWHC 67 (Comm) ym mharagraff 17



*Gall gwrandawriad, neu unrhyw ran ohono, fod yn breifat pe byddai cyhoedduswydd yn mynd yn groes i fwriad y gwrandawriad; ei fod yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol; ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol personol) ac y byddai cyhoedduswydd yn amharu er gwaeth ar y cyfrinachedd hwnnw; mae gwrandawriad preifat yn angenrheidiol i warchod buddiannau unrhyw blentyn neu barti sydd wedi'i warchod; ei fod yn wrandawriad ar gyfer cais a wnaed heb rybudd ac na fyddai'n gyfiawn i unrhyw atebydd pe byddai gwrandawriad cyhoeddus yn cael ei gynnal; mae'n ymwneud â materion nad ydynt yn ddadleuol sy'n codi wrth weinyddu ymddiriedolaethau neu wrth weinyddu ystad rhywun sydd wedi marw; neu fod y llys yn ystyried bod hyn yn hanfodol, er budd cyfiawnder.*

*Gall y llys orchymyn nad yw enw na manylion unrhyw barti neu dyst yn cael ei ddatgelu os yw'n ystyried bod peidio â datgelu yn angenrheidiol er mwyn gwarchod buddiannau'r parti neu'r tyst hwnnw.*

Ym mis Mai 2011, comisiynodd yr Arglwydd Neuberger a oedd yn Feistr y Rholiau ar y pryd, adroddiad ar uwch-waharddebau, gwaharddebau dienw a oedd yn aml yn delio â bywydau preifat unigolion amlwg. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig sylwadau am gyfiawnder agored a rheol 39.2. Yn gyntaf, roedd yn ail-gadarnhau'r egwyddor bod *cyfiawnder agored* yn sylfaenol. Yna, roedd yn nodi mai dim ond er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol y dylid rhanddirymu o'r egwyddor, a bod yn rhaid cael tystiolaeth glir i gefnogi unrhyw fwriad i gymhwyso hynny a bod y llys yn craffu'n ofalus ar y cyfan<sup>3</sup>. Nid oedd rheol 39.2 wedi'i drafftio ar y telerau hynny, felly, gofynnodd Meistr y Rholiau i'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil adolygu a diwygio rheol 39.2.

Yn *AMM vs HXW*<sup>4</sup> cadarnhaodd Mr Ustus Tugendhat pan ofynnir i farnwr ystyried cais i randdirymu o'r egwyddorion o gyfiawnder agored, mae'r prawf yn gweld a oes angen, ac nid mater o ddisgresiwn ydyw. Pan fydd y pwnc yn ddifrifol iawn (yn yr achos hwn, blacmel) y prawf i'w fodloni yw a yw budd cyffredinol y cyhoedd yn ystyriaeth ddigonol wrth gyhoeddi adroddiad am yr achos sy'n datgelu pwy yw [x] i gyfiawnhau'r hyn sy'n arwain at lai o hawliau iddo ef a'i deulu fynnu parch i'w bywyd teuluol a phreifat. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil yn dadlau mai hyn yn wir yw'r dehongliad cywir, ac mae wedi drafftio'r diwygiadau arfaethedig i reol 39 yn unol â hynny.

Mae bod yn glir ynghylch hyn yn bwysig i'r partiön yn yr achos, ond mae'n mynd yn bell tu hwnt i hynny, fel y gwelir yn y ddau achos canlynol.

Achos *Storer vs British Gas PLC*<sup>5</sup> yn 2000 yw'r awdurdod am yr awgrym pan oedd tribiwnlys yn eistedd yn breifat heb yr awdurdodaeth i wneud hynny, roedd y penderfyniad a wnaed gan y tribiwnlys yn anghyfreithlon.

Yn y Llys Adrannol, yn achos *R (ar gais O'Connor)*<sup>6</sup> roedd Yr Arglwydd Ustus Fulford, LJ a Mr Ustus Leggatt o'r farn bod egwyddorion cyfiawnder agored yn golygu os yw aelodau'r cyhoedd yn cael eu heithrio'n anghyfreithlon o'r achos, mae'r eithrio yn golygu y byddai unrhyw benderfyniadau a wnaed dan yr amodau hynny yn annilys hefyd.

<sup>3</sup> Adroddiad y Pwyllgor ar yr Uwch-waharddebau: Super injunctions, Anonymised injunctions and open justice.

<sup>4</sup> [2010] EWCH 2457 QB

<sup>5</sup> [2000] 2 ALL ER 440

<sup>6</sup> [2016] EWHC 2792 (Gweinyddol)

Yn fwy diweddar, ymchwiliwyd i'r mater yn ymwneud â datgelu materion ariannol unigolion yng nghyd-destun ceisiadau am Adolygiad Barnwrol a heriau eraill a ddaw o dan ddarpariaethau "hawliad Confensiwn Aarhus". Y cwestiwn yw a yw'r wybodaeth a ddatgelir yn gofyn am wyro oddi wrth yr egwyddorion cyffredinol a nodir ar gyfer cyfiawnder agored. Yn y dyfarniad a gyflwynwyd gan yr Uchel Lys yn achos *RSPB ac eraill v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder*<sup>7</sup> ym mis Medi 2017, daeth y llys i'r casgliad y dylid diwygio trefn gwarchod costau amgylcheddol 'hawliad Confensiwn Aarhus', ac mai'r sefyllfa'n ddiodyfyn yw bod unrhyw wrandawriad ar gyfer cais i amrywio capiau costau mewn hawliad Confensiwn Aarhus yn cael ei gynnal yn breifat. Mae'r drefn bresennol yn adlewyrchu'r egwyddor mai gwrandawriad cyhoeddus ddylai fod yn ddiodyfyn). Er mwyn datrys y sefyllfa hon, cynigiodd y Llys argymhelliad penodol yng nghyswllt y Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n dod gyda Rhan 39. Byddai'r newid hwn yn gofyn am fân ddiwygiadau i'r Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol, ac nid yw hyn yn cael ei wneud ar wahân y tro hwn, ond bydd yn cael ei ystyried, yn hytrach, gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil fel rhan o'r adolygiad hwn.

Mae gwelliannau pellach o ran cyfiawnder agored yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys rheol newydd i ailddiffinio gwrandawriadau i gynnwys yn benodol y rheini a gynhelir dros y ffôn neu fideo neu ffyrdd eraill o gyfathrebu ar y pryd ddwyffordd. Mae'r diffiniad cyffredinol hwn yn cydnabod nad yw gwrandawriadau'n cael eu cynnal bob tro mewn ystafell llys ffurfiol ond yn cael eu cynnal mewn ffyrdd eraill. Mae gwrandawriadau mewn siambrau yn dal i fod yn wrandawriadau, ac mae'r un rheolau'n berthnasol iddynt.

Mae yna gynnig hefyd i gael proses newydd ar gyfer achosion sy'n amodol ar eu cynnal yn breifat neu ar gyfyngiadau ar enwi partion i'w rhoi ar wefan ganolog.

Mae'r egwyddor o gyfiawnder agored yn cael ei hatgyfnerthu mwy gan welliant arall sy'n mynnu pan fydd partion yn cyfathrebu â'r llys, bod yn rhaid iddynt sicrhau bod yr ochr arall yn cael copi hefyd.

Yn olaf, mae darpariaeth newydd sydd â'r bwriad o helpu i ddelio â rhywfaint o'r oedi y mae partion, (y rhai heb eu cynrychioli yn bennaf), yn ei wynebu wrth gael trawsgrifiadau. Yn lle trawsgrifiad gair-am-air, byddai'r rheol yn caniatáu i'r barnwr ofyn bod parti a gynrychiolir yn rhannu nodyn o'r achos.

Bydd y newidiadau hyn i Ran 39 yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i ddarpariaethau pwysig yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil.

---

<sup>7</sup> *RSPB ac eraill v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder* [2017] EWHC 2309 (Gweinyddol)

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn gosod newidiadau i Ran 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil '*Darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â gwrandawladau*' at ddiben ymgynghoriad. Mae'n ail-gadarnhau ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau cyfiawnder agored, o ran bod gwrandawladau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus yn ogystal ag ehangu diffiniad gwrandawliad. Mae newidiadau eraill yn cynnwys mecanwaith i wneud pobl yn ymwybodol o'r cyfyngiadau adrodd, rheolau newydd am bartïon yn cyfathrebu â'r llys, yn ogystal ag atebion i'r anawsterau sy'n wynebu partïon wrth ofyn am drawsgrifiadau. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddefnyddwyr llysoedd yng Nghymru a Lloegr.

Mae copi Saesneg ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/part-39-civil-procedure-rules-consultation-on-proposed-changes>

## Y cynigion

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r newidiadau arfaethedig gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil, a gyflawnir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Gyda phob cynnig daw diwygiadau drafft i'r rheol berthnasol, neu reol newydd, sy'n dangos sut byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith. Byddem yn croesawu eich sylwadau.

### Diwygiadau i Ran 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil

Mae cael diffiniad mwy diweddar o'r gair "gwrandawiad" yn ei gwneud yn glir bod "gwrandawiad" yn cynnwys gwrandawiadau traddodiadol mewn ystafell llys yn ogystal â gwrandawiadau mewn siambrau a gwrandawiadau sy'n cael eu cynnal dros gyswllt fideo neu ffôn.

#### 39.1 *Dehongliad*

~~Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at wrandawiad yn cynnwys cyfeiriad at y treial.~~

- (1) *Yn y Rhan hon, mae "gwrandawiad" yn golygu unrhyw achos gerbron barnwr (gan gynnwys barnwr rhanbarth neu feistr) heblaw pan fydd penderfyniad ar bapur a lle nad oes cyhoeddiad ar lafar o'r penderfyniad; ac mae'n cynnwys achos sy'n cael ei gynnal yn llwyr neu'n rhannol dros gyswllt fideo, ffôn neu ffyrdd electronig eraill o gyfathrebu'n syth ddwyffordd.*
- (2) *Nid yw'r Rhan hon yn berthnasol i hawliadau cyflafareddu. (Mae Rheol 62.2 (1) yn diffinio hawliad cyflafareddu).*

#### **Cwestiwn 1: Ydy'r diffiniad newydd o 'wrandawiad' yn ddigon clir i gynnwys yr holl drefniadau posibl a ddefnyddir gan lysoedd i gynnal gwrandawiadau?**

Mae rheol 39.2 (isod) yn nodi'r sefyllfa, dylid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus oni bai fod un o'r eithriadau yn berthnasol. Mae darpariaeth hefyd i gywiro'r gamdybiaeth gyffredinol, y gall y partiön gytuno rhyngddynt i gynnal gwrandawiad yn breifat heb fod y llys yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn.

Mae paragraff newydd (2) yn rheol 39.2 yn cael ei gynnis i atgyfnerthu gofynion adran 12 Deddf Hawliau Dynol (Rhyddid Mynegiant).

#### 39.2 *Rheol gyffredinol—gwrandawiad cyhoeddus*

- (1) *Y rheol gyffredinol yw y dylid cynnal gwrandawiad yn gyhoeddus. Ni chaiff gwrandawiad ei gynnal yn breifat, gyda chaniatâd y partiön na hebddo, oni bai ac i'r graddau y mae'r llys yn fodlon gydag un neu ragor o'r materion ym mharagraff (4) isod.*
- (2) *Wrth benderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad yn breifat, rhaid i'r llys ystyried unrhyw ddyletswydd i warchod neu roi sylw i hawl i ryddid mynegiant y gall hyn effeithio arni.*

**Cwestiwn 2: A yw 39.2 (1) a (2) yn nodi'n glir y dylai gwrandawiadau fod yn gyhoeddus, ac mai'r llys sy'n penderfynu ar y mater?**

Mae paragraff newydd (3) a gynigir yn rheol 39.2 isod yn disodli'r syniad nad oes yn rhaid i'r llys wneud unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n awyddus i arsylwi'r achos, gyda'r syniad y dylai'r llys gymryd camau rhesymol i sicrhau bod gwrandawiadau'n agored i'r cyhoedd ac i unrhyw un sydd am fynychu (ac eithrio, wrth gwrs, yn yr achosion eithriadol hynny lle mae'r gwrandawriad yn breifat).

- (2) *Nid yw'r gofyniad i wrandawriad fod yn gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys wneud trefniadau arbennig ar gyfer aelodau'r cyhoedd.*
- (3) *Rhaid i'r llys gymryd camau rhesymol i sicrhau bod pob gwrandawriad yn agored ac yn gyhoeddus ac eithrio pan fydd gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat.*

**Cwestiwn 3: A yw'r rheol hon yn ddigon clir o ran nodi rhwymedigaeth y llys tuag at aelodau'r cyhoedd?**

**Cwestiwn 4: A yw'r ddealltwriaeth o'r gair 'rhesymol' yn ddigon clir neu a dylai'r rheol fod yn fwy rhagnodol?**

Mae paragraff diwygiedig (4) a gynigir ar gyfer Rheol 39.2 yn darparu prawf ar gyfer cynnal gwrandawriad yn breifat ac yn darparu bod yn rhaid i'r llys gynnal y gwrandawriad yn breifat os bodlonir y prawf hwnnw. Mae dwy ran i'r prawf – yn gyntaf, bod un o'r cynigion a restrir yn berthnasol, ac yn ail, bod yn rhaid i'r llys fod yn fodlon ei bod yn angenrheidiol cynnal y gwrandawriad, neu ran ohono, yn breifat er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol. Dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i sicrhau hynny y dylai'r llys gynnal y gwrandawriad yn breifat.

Mae agwedd debyg i'w gweld ym mharagraff diwygiedig (5) sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar ddatgelu pwy yw parti neu dyst.

~~(3)~~ (4) Gellir-Rhaid cynnal gwrandawriad, neu unrhyw ran ohono, yn breifat os yw'r llys, ac i'r graddau y mae'r llys yn fodlon, ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol ac—

- (a) *y byddai cyhoeddusrwydd yn mynd yn groes i fwriad y gwrandawriad;*
- (b) *ei fod yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol;*
- (c) *ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol personol) ac y byddai cyhoeddusrwydd yn amharu er gwaeth ar y cyfrinachedd hwnnw;*
- (d) *bod gwrandawriad preifat yn angenrheidiol i warchod buddiannau unrhyw blentyn neu barti sydd wedi'i warchod;*
- (e) *ei fod yn wrandawriad ar gyfer cais a wnaed heb rybudd ac na fyddai'n gyfiawn i unrhyw atebudd pe byddai gwrandawriad cyhoeddus yn cael ei gynnal;*
- (f) *mae'n ymwneud â materion nad ydynt yn ddadleuol sy'n codi wrth weinyddu ymddiriedolaethau neu wrth weinyddu ystad rhywun sydd wedi marw; neu*

(g) mae'r llys, am unrhyw reswm arall, yn ystyried bod hyn yn hanfodol, er budd cyfiawnder.

(4) (5) ~~Gall~~ Rhaid i'r llys orchymyn nad yw enw unrhyw barti neu dyst yn cael ei ddatgelu os yw'n ystyried bod peidio â datgelu yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol ac er mwyn gwarchod buddiannau'r parti neu'r tyst hwnnw.

Rhaid i'r llys eistedd yn breifat os, a dim ond os, yw hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol a bod un neu ragor o (a)-(g) yn berthnasol. Mae'r sefyllfaoedd yn (a)-(g) yn gategorïau cyfarwydd iawn lle gall fod yn anghyfiawn i eistedd yn gyhoeddus.

**Cwestiwn 5: A oes angen diffinio mwy am yr hyn a olygir wrth y term “sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol”?**

**Cwestiwn 6: Ar wahân i'r ceisiadau am adolygiad barnwrol dan ddarpariaethau Aarhus (gweler Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) vs Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder<sup>8</sup>), a oes unrhyw resymau eraill pam dylid cynnal gwrandawriad yn breifat, a beth yw'r rhain?**

Os yw'r llys wedi penderfynu gwrandawrio achosion yn breifat ac os yw'r partïon yn ddiennw, nid oes trefn ar hyn o bryd i benderfynu ynghylch materion cyfiawnder agored. Nid yw sefydliadau yn y cyfryngau a rhai eraill sydd o bosibl yn gwrthwynebu gorchymynion cuddio enw a phenderfyniadau i wrando achosion yn breifat, yn cael gwybod o reidrwydd am orchymynion o'r fath. Mae'n bosibl na fydd ganddynt gyfle i gynnig sylwadau a allai amharu ar eu hawliau i gael eu clywed ar y materion. Mae'r broses isod yn y paragraff newydd a gynigir (6) yn rheol 39.2 yn gosod dyletswydd ar y llys i wneud y gorchymyn yn gyhoeddus drwy ddilyn trefn syml a fydd yn golygu bod copi electronig o'r gorchymyn ar gael ar wefan, gan roi cyfle felly i barti herio'r gorchymyn drwy wneud cais i'r llys. Mae'r cynnig hwn yn mabwysiadu ffordd debyg i'r hyn a nodir yn *Practice Direction (Committal for Contempt: Open Court) [2015] 1 WLR 2195 (Yr Arglwydd Thomas LCJ)*.

(6) Oni bai ac i'r graddau y bydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, os bydd y llys yn gweithredu yn unol â pharagraff (4) neu (5), rhaid sicrhau bod copi o'r gorchymyn llys ar gael drwy'r Gwasanaeth “CopyDirect” ac i'r Swyddfa Farnwrol yn [judicialwebupdates@judiciary.gsi.gov.uk](mailto:judicialwebupdates@judiciary.gsi.gov.uk) i'w gyhoeddi ar wefan Barnwriaeth Cymru a Lloegr. Caiff unrhyw un nad yw'n barti yn yr achos wneud cais i osod y gorchymyn o'r neilltu.

**Cwestiwn 7: A ydych chi o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn ddigonol i ganiatáu i bartïon sydd â diddordeb yn y gorchymyn gael cyfle i gynnig sylwadau?**

**Cwestiwn 8: A yw'n briodol bod barnwr yn cael rhoi cyfarwyddyd na ddylai'r gorchymyn llys a) gael ei roi ar y wefan, b) neu ddim nes ei gyflwyno i'r parti arall, neu c) ddim heb unrhyw olygu er mwyn gwarchod manylion pobl ac ati?**

**Cwestiwn 9: A oes unrhyw bryderon ynghylch gosod y gorchymynion hyn ar y Rhyngwrdd?**

<sup>8</sup> [2017]EWHC 320- (Gwein)

## Rheolau Newydd

Mae rheol newydd i fynd i'r afael â phryder ynghylch partïon yn cyfathrebu â'r llys (yn aml dros e-bost) heb roi copi i'r ochr arall. Mae'n rheol sylfaenol wrth weinyddu cyfiawnder na chaiff dim un o'r partïon gyfathrebu â'r llys heb roi gwybod am hynny wrth y partïon eraill ar yr un pryd. Mae'r pryder yn ddifrifol iawn pan fydd parti a gynrychiolir yn cyfathrebu â'r llys, heb roi gwybod i'r parti arall sy'n gwrthwynebu ac nad yw'n cael ei gynrychioli. Cynigir rheol newydd i ddatrys hyn.

### 39.8—Cyfathrebu â'r llys (Darpariaeth newydd)

- (1) Rhaid datgelu unrhyw gyfathrebu rhwng parti yn yr achos a'r llys i'r parti neu'r partïon eraill neu eu cynrychiolwyr, ac os yw'n ysgrifenedig (boed hynny ar bapur neu ar ffurf electronig), rhaid eu copïo yn y neges.
- (2) Mae paragraff (1) uchod yn berthnasol i unrhyw gyfathrebu lle mae unrhyw sylwadau'n cael eu gwneud i'r llys ar fater o sylwedd neu weithdrefn ond nad yw'n berthnasol i unrhyw gyfathrebu sy'n fater o drefn, yn weinyddol, a heb fod yn ddadleuol.
- (3) Nid oes yn rhaid i barti yn unol â pharagraff (1) uchod ddatgelu na rhoi copi o unrhyw gyfathrebu os oes rheswm (neu resymau) cryf dros beidio â gwneud hynny; ar yr amod bod y rheswm neu'r rhesymau yn cael ei/eu nodi'n glir yn y cyfathrebu.
- (4) Rhaid i unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig y mae'n rhaid rhoi copi ohono i'r parti neu'r partïon eraill neu eu cynrychiolwyr yn unol â pharagraff (1) uchod, nodi arno fod copi ohono'n cael ei roi i'r unigolyn neu'r unigolion hynny, gan nodi pwy ydynt ac ym mha rinwedd maent yn cael y copi.
- (5) Oni bai fod y llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, bydd unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig i'r llys nad yw'n cydymffurfio â pharagraff (4) uchod yn cael ei ddychwelyd i'r sawl a'i hanfonodd heb i'r llys ei ystyried.
- (6) Yn ogystal â dychwelyd y cyfathrebu ysgrifenedig yn unol â pharagraff (5) uchod, os na fydd parti'n llwyddo i gydymffurfio â pharagraff (1) uchod, gall y llys, yn amodol ar wrando ar y partïon, osod cosbau neu ymarfer ei bwerau eraill i reoli achosion yn unol â Rhan 3.

**Cwestiwn 10: A yw'r darpariaethau hyn yn ddigon cadarn i atal y duedd o un ochr yn gwneud sylwadau o sylwedd i'r llys heb roi copi i'r ochr arall?**

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw fesurau eraill y dylid eu cyflwyno i sicrhau bod partïon yn rhoi copi fel mater o drefn i'r ochr arall wrth gyfathrebu â'r llys?**

**Cwestiwn 12: A yw datganiad sy'n cadarnhau bod parti wedi rhoi copi i'r ochr arall yn ddigonol?**

Mae'r ail ddarpariaeth newydd yn y rheol sy'n bodoli'n barod yn delio â recordio a thrawsgrifio achosion. Mae paragraff newydd (6) yn angenrheidiol i helpu'r nifer gynyddol o bartïon heb eu cynrychioli sy'n ymddangos gerbron y llysoedd. Bwriad hyn yw annog y llys a'r partïon i gydweithredu i ddarparu cofnod anffurfiol o'r achos wrth aros am drawsgriadiad cymeradwy.

Yn benodol, gall fod o fudd i bartïon heb eu cynrychioli gael nodyn anffurfiol o'r gwrandawiaidau, er enghraifft er mwyn chwilio am fwy o gyngor cyfreithiol, penderfynu ynghylch apelio neu beidio neu ystyried canlyniad yr achos.

### **39.9—Recordio a thrawsgrifio achosion (Darpariaeth newydd)**

- (1) Mewn unrhyw wrandawiad, boed hynny yn yr Uchel Lys neu mewn Llys Sirol, bydd yr achos yn cael ei recordio ar dâp neu'n ddiqidol oni bai fod y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.
- (2) Ni chaiff unrhyw barti nac aelod o'r cyhoedd ddefnyddio offer recordio answyddogol mewn unrhyw lys neu ystafell y barnwr heb ganiatâd y llys. Mae gwneud hynny heb ganiatâd yn ddirmyg llys.
- (3) Caiff unrhyw barti neu unigolyn ofyn i drawsgrifiad neu drawsgrifiadau o'r recordiad o unrhyw wrandawiad gael ei roi iddynt, ar ôl talu'r ffioedd a awdurdodir gan unrhyw gynllun sydd mewn grym i greu'r recordiad neu'r trawsgrifiad.
- (4) Os nad yw'r unigolyn sy'n gofyn am y trawsgrifiad neu'r trawsgrifiadau'n barti yn yr achos a bod y gwrandawiad neu ran ohono wedi cael ei gynnal yn breifat yn unol â rheol 39.2, nid yw paragraff (3) uchod yn berthnasol oni bai fod y llys yn gorchymyn hynny.
- (5) Mae paragraff 6(2) o'r Cyfarwyddyd Ymarfer 52C (Apeliadau i'r Llys Apêl) yn delio â darparu trawsgrifiadau i'w defnyddio yn y Llys Apêl ar draul y cyhoedd.
- (6) Mewn unrhyw wrandawiad, boed hynny yn gyhoeddus neu'n breifat, caiff y barnwr roi cyfarwyddyd priodol i helpu parti, yn benodol un sydd neu sydd wedi bod neu a fydd o bosib heb ei gynrychioli, ar gyfer casglu a rhannu unrhyw nodyn neu gofnod anffurfiol arall o'r achos a wnaed gan barti arall neu gan y Barnwr.

**Cwestiwn 13: A yw'r gofyniad i helpu i baratoi nodyn, gyda chytundeb y barnwr neu fel arall, yn rhoi gormod o bwysau ar y parti a gynrychiolir?**

**Cwestiwn 14: Pa statws, yng nghyswllt unrhyw Hysbysiad Apelydd, ddylid ei roi ar nodyn y cytunwyd arno?**

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ffordd arall y gellir helpu parti heb ei gynrychioli i gael nodyn cywir o'r gwrandawiad?**



## Asesiadau effaith

Nid oes asesiad llawn o'r effaith wedi'i wneud gan nad yw'r cynigion hyn yn rhan o ddiffiniad darpariaeth reoleiddio, ac oherwydd ein bod yn credu mai bach iawn fydd y costau.

Yn ôl ein hasesiad, mae'n bosibl y bydd costau gweinyddol ynghlwm wrth y cynigion hyn ond rydym yn disgwyl iddynt fod yn fach iawn. Os felly, dylai'r costau ddod o gyllideb bresennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Byddem yn croesawu eich barn i'n helpu i asesu a mesur unrhyw effaith, gyda thystiolaeth i gefnogi hyn os oes modd.

### **Cwestiwn 16: Sut bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar eich gwaith yn y sector cyfreithiol?**

Yn unol ag adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae'r cynigion hyn yn debygol o effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig sef hil, oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder roi sylw priodol i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt); a
- Meithrin perthynas dda rhwng grwpiau gwahanol (pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt).

Nid ydym yn credu bod y cynigion hyn yn cael effaith benodol ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig nac yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol.

### **Cwestiwn 17: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth sy'n ymwneud â chydaddoldeb y dylem eu hystyried yn eich barn chi?**

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**

## Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion amdanoch chi'ch hun

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw hynny'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---



---



---



---

## Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 23/08/18 at:

**David Hamilton**  
**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder**  
**9.22, 102 Petty France**  
**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 020 3334 3555**

**E-bost: [Part39condoc@justice.gov.uk](mailto:Part39condoc@justice.gov.uk)**

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copiâu ychwanegol

Mae copiâu ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Mae modd gwneud cais i David Hamilton (fel uchod) am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol.

## Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ymhen [rhowch ddyddiad cyhoeddi sydd, cyn belled ag y bo modd, o fewn tri mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad]. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli wrth iddynt ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin y wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â

dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

**Cwestiwn 1: Ydy'r diffiniad newydd o 'wrandawriad' yn ddigon clir i gynnwys yr holl drefniadau posibl a ddefnyddir gan lysoedd i gynnal gwrandawriadau?**

**Cwestiwn 2: A yw 39.2 (1) a (2) yn nodi'n glir y dylai gwrandawriadau fod yn gyhoeddus, ac mai'r llys sy'n penderfynu ar y mater?**

**Cwestiwn 3: A yw'r rheol hon yn ddigon clir o ran nodi rhwymedigaeth y llys tuag at aelodau'r cyhoedd?**

**Cwestiwn 4: A yw'r ddealltwriaeth o'r gair 'rhesymol' yn ddigon clir neu a dylai'r rheol fod yn fwy rhagnodol?**

**Cwestiwn 5: A oes angen diffinio mwy am yr hyn a olygir wrth y term "sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol"?**

**Cwestiwn 6: Ar wahân i'r ceisiadau am adolygiad barnwrol o dan ddarpariaethau Aarhus (gweler Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) vs Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder<sup>9</sup>), a oes unrhyw resymau eraill pam dylid cynnal gwrandawriad yn breifat, a beth yw'r rhain?**

**Cwestiwn 7: A ydych chi o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn ddigonol i ganiatáu i bartïon sydd â diddordeb yn y gorchymyn gael cyfle i gynnig sylwadau?**

**Cwestiwn 8: A yw'n briodol bod barnwr yn cael rhoi cyfarwyddyd na ddylai'r gorchymyn llys gael ei roi ar y wefan, neu ddim nes ei gyflwyno i'r parti arall, neu ddim heb unrhyw olygu er mwyn gwarchod manylion pobl ac ati?**

**Cwestiwn 9: A oes unrhyw bryderon ynghylch gosod y gorchymynion hyn ar y Rhyngrwyd?**

**Cwestiwn 10: A yw'r darpariaethau hyn yn ddigon cadarn i atal y duedd o un ochr yn gwneud sylwadau o sylwedd i'r llys heb roi copi i'r ochr arall?**

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw fesurau eraill y dylid eu cyflwyno i sicrhau bod partïon yn rhoi copi fel mater o drefn i'r ochr arall wrth gyfathrebu â'r llys?**

**Cwestiwn 12: A yw datganiad sy'n cadarnhau bod parti wedi rhoi copi i'r ochr arall yn ddigonol?**

**Cwestiwn 13: A yw'r gofyniad i helpu i baratoi nodyn, gyda chytundeb y barnwr neu fel arall, yn rhoi gormod o bwysau ar y parti a gynrychiolir?**

---

<sup>9</sup> [2017]EWHC 320- (Gwein)

**Cwestiwn 14: Pa statws, yng nghyswllt unrhyw Hysbysiad Apelydd, ddylid ei roi ar nodyn y cytunwyd arno?**

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ffordd arall y gellir helpu parti heb ei gynrychioli i gael nodyn cywir o'r gwrandawriad?**

**Cwestiwn 16: Sut bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar eich gwaith yn y sector cyfreithiol?**

**Cwestiwn 17: A oes gennych unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth sy'n ymwneud â chydarddoldeb y dylem eu hystyried yn eich barn chi?**

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© **Hawlfraint y Goron 2018**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y sawl sydd berchen ar yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i David Hamilton fel uchod.